# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 8 Gorffennaf 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(211)v5

**Cwestiwn Brys**

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ymadawiad y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd o'r Cabinet?

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.
Gweld y Cwestiynau

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Cyflwyno Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (60 munud)**

**4 Datganiad gan y Prif Weinidog: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Comisiwn Williams (45 munud)**

**Dogfen Ategol**
Adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus

**5 Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth: Y Papur Gwyn Llywodraeth Leol (45 munud)**

**6 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Y Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 (i'w ddarparu gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth) (45 munud)**

**7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch y Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd (15 munud)**

**NDM5549 Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau Yn y Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd sy'n cyflwyno gofyniad i gael caniatâd yr Uchel Lys cyn y ceir herio dilysrwydd amrywiol orchmynion, camau, cynlluniau a dogfennau strategol eraill sy'n ymwneud â chynllunio, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Mai 2014 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Diwygiedig yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mehefin 2014 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Mae copi o'r Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd i'w weld yma:
http://services.parliament.uk/bills/2013-14/criminaljusticeandcourts.html *[Saesneg yn unig]*

**Dogfennau Ategol**
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Diwygiedig
Llythyr gan y Gweinidog Tai ac Adfywio at Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn dilyn trafodaeth y Pwyllgor ynghylch y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd

**8 Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu Bwyd o Brydain) 2014 (15 munud)**
**NNDM5550 Alun Davies (Blaenau Gwent)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno, yn unol ag adran 9(6) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011, a Rheol Sefydlog 30A.10, i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu Bwyd o Brydain) 2014, yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mai 2014.

Gosodwyd y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mai 2014.

**Dogfennau Ategol**
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol
Ddogfen Esboniadol (Saesneg yn unig)
Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu Bwyd o Brydain) 2014 (Saesneg yn unig)
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**9 Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Tai (Cymru) (15 munud)**
Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Tai (Cymru)

**Dogfennau Ategol**
Bil Tai (Cymru)
Memorandwm Esboniadol

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 9 Gorffennaf 2014